# Y Lleidr Pen-Ffordd

*Copiwch y gerdd yn eich llawysgrifen glwm orau.*

Ar ambell nos loer-olau
A'r gwynt yn nhwll y clo,
A sŵn moduron prysur
Yn ddistaw iawn er tro,
Fe glwych, ond ichi wrando,
Sŵn ceffyl yn mynd heibio
Dro heol fawr y fro.

A phwy yw'r marchog hwnnw
Sy'n mynd mor hwyr y nos
Dros lawer nant ac afon
A thros y waun a'r rhos?
Wel, Twm Siôn Cati'i hunan
Â'i glogyn du yn hofran
O dan y lleuad dlos.

Mae'n aros ar y groesffordd
Yng nghysgol coed y Plas;
Fe rydd ei law ar bistol
A thyn ei gleddyf glas.
Ac yno mae'n clustfeinio,
Am sŵn coets fawr Llandeilo
Yn mynd trwy'r cwm ar ras.

Tu ôl i'r coed hynafol
Mae'r Plas yn adfail llwm,
Rhy bell yw'r Sgweier heno
I ofni castiau Twm.
Ac ni ddaw coets Llandeilo
Â charnau'r meirch yn fflachio
Byth mwy i fyny'r cwm.

Carlama'r ceffyl ymaith
Â'r marchog ar ei gefn,
Mae sŵn y carnau'n darfod
Ar lawr y briffordd lefn.
Ond gwn, ond ichi wrando
Ar ambell nos fel heno –
Y clywch chi'r sŵn drachefn.

T. Llew Jones